

PWYLLGOR ARCHWILIO AC ADOLYGU GWASANAETHAU CORFFORAETHOL

10 Mai 2017

Yn Bresennol: Cynghorydd M Williams (Cadeirydd)
Mr D Ellis, Mrs G Hayward, Cynghorydd M James, Cynghorydd L
Jenkins a'r Cynghorydd R Owens.

(Swyddfa'r APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 12.30pm – 1.55pm)

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriad am fod yn absennol oddi wrth y Cynghorydd
DWM Rees

2. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 15^{fed} o Chwefror 2017
i'w cadarnhau a'u llofnodi.

PENDERFYNWYD cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a
gynhaliwyd ar y 15^{fed} o Chwefror 2017.

3. Grŵp Iechyd a Diogelwch: Adroddiad y cyfarfod

Ystyriodd yr Aelodau adroddiad y cyfarfod o'r Grŵp Iechyd a Diogelwch a
gynhaliwyd ar 19 Ionawr 2017.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad o gyfarfod y Grŵp Iechyd a
Diogelwch a gynhaliwyd ar 19 Ionawr 2017.

4. Adroddiad Blynyddol Archwiliad 2016/17

Eglurodd y Rheolwr Cyllid bod yr Archwilydd Mewnol, Robin Prichard,
wedi anfon ymddiheuriadau, ac yn ei absenoldeb y byddai yntau yn
cyflwyno'r adroddiad, oedd yn crynhoi canlyniad y Gwaith a wnaed gan
Gateway Assure yn erbyn Cynllun Archwilio gweithredol 2016/17 a
gymeradwywyd gan y Pwyllgor fis Mai 2016.

Yn ystod y flwyddyn roedd y gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi adolygu
nifer o feysydd, sef archwiliad iechyd ar lywodraethu gwybodaeth,
rheolaethau ariannol allweddol - caffael a chredydwyr, adolygiad adrannol
sy'n cwmpasu costau cymorth, parhad busnes, rheoli perfformiad, a
ffioedd cynllunio. Roedd adroddiad ar y meysydd gwaith hyn wedi'u
cyflwyno gerbron cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor a bod yr adroddiad
blynyddol yn gyfuniad o'r adroddiadau hyn. O'r hyn a archwiliwyd, gan
gymryd i ystyriaeth risg cymharol y meysydd busnes, daeth y gwasanaeth
archwilio mewnol i gasgliadau cadarnhaol iawn ar y cyfan am y polisïau,
gweithdrefnau a'r gweithrediadau oedd ar waith, gyda chrynodeb o
ganlyniadau'r archwilio a'r prif ganfyddiadau ynghlwm wrth yr adroddiad.



Y farn a roddwyd oedd bod gan yr Awdurdod brosesau rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth oedd yn ddigonol ac yn effeithiol. Roedd pum canfyddiad arwyddocaol wedi cael eu nodi ac roedd y rheolwyr wedi ymateb i'r rhain yn flaenorol.

Holodd yr Aelodau ystyr rhai o'r canfyddiadau, ac ymatebodd y swyddogion gyda'u dealltwriaeth hwy o'r argymhellion.

NODWYD.

5. Adroddiad ar Berfformiad yn y Cyfnod oedd yn diwedd ar 31 Mawrth 2017

Atgoffodd y Cydlynnydd Perfformiad a Chydymffurfiaeth yr Aelodau bod strwythur Cynllun Corfforaethol yr Awdurdod ar gyfer 2016/17 yn amlygu saith o amcanion llesiant Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Hefyd roedd yr adroddiad perfformiad wedi'i addasu i ddilyn yr amcanion llesiant hyn, gydag adran ychwanegol sy'n rhoi gwybodaeth am faterion rheoli.

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r perfformiad hyd yn hyn hyd at 31 Mawrth 2017, a dyma felly oedd y data am y flwyddyn ariannol lawn. Lle nad oedd y targedau wedi cael eu cyflawni, roedd rhai sylwadau wedi'u gwneud lle'r oedd y rhesymau am hyn yn hysbys.

Cafwyd peth trafodaeth ynghylch y nifer cynyddol o ddyddiau a gollwyd drwy absenoldeb oherwydd salwch a'r rhesymau posibl am hyn. Atebodd y swyddogion drwy ddweud bod y sefyllfa yn cael ei monitro. Hefyd roeddent wedi egluro'r newidiadau rheoli oedd wedi'u gwneud yng Nghaeriw, Castell Henllys ac Oriel y Parc, a'r gobaith oedd y byddai'r newidiadau hyn ynghyd â gwell marchnata, yn cynyddu'r incwm o'r canolfannau.

NODWYD.

6. Cofrestr Risg

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid y gofrestr risg ddiweddaraf a adolygwyd yn ddiweddar gan Dîm Rheoli a gan Dîm Arweinwyr yr Awdurdod pan gafodd y cynnydd diweddar a'r newidiadau eu nodi. Roedd dwy risg oedd wedi cynyddu yn ystod y chwarter - adroddiad gan yr Arolygydd Cronfeydd Dŵr ar gyflwr walydd sarn Melin Caeriw oedd yn awgrymu bod angen gwneud Gwaith atgyweirio mawr cyn pen y 12 mis nesaf, ac roedd Coed Cymru wedi rhoi gwybod i'r Awdurdod am eu penderfyniad i dynnu'n ôl o'r trafodaethau ar safle Cilrhedyn. Nid oedd unrhyw risgiau wedi'u tynnu oddi ar y gofrestr. O ran Cilrhedyn ychwanegodd y swyddogion bod y safle ar hyn o bryd yn ariannol o dan reolaeth, ac y byddai adroddiad ar ddyfodol y safle yn cael ei gyflwyno gerbron yr Awdurdod maes o law.



Ychwanegodd y Prif Weithredwr bod yr adroddiad ar yr Adolygiad o Dirweddau Dynodedig wedi ei gyhoeddi y diwrnod blaenorol ac y byddai adroddiad ar hyn yn cael ei gyflwyno gerbron yr Awdurdod fis Mehefin. Nid oedd unrhyw fanylion ar gael hyd yn hyn am yr Aelodau newydd a benodir gan Lywodraeth Cymru a'r gobaith oedd y byddai'r penodiadau yn cael eu gwneud cyn diwedd y mis. Yn olaf, tynnodd un Aelod sylw at yr angen am greu cronfa ariannol wrth gefn i liniaru'r risg o benderfyniad diffygiol ar faterion cynllunio (Risg 14), ac roedd hyn wedi cael ei drafod mewn cyfarfod blaenorol.

NODWYD.

7. Arolwg o Ddefnyddwyr Llwybrau Cefn Gwlad 2015/16

Atgoffwyd yr Aelodau bod yr eitem hon wedi cael ei chyfeirio at y Pwyllgor gan y cyfarfod o'r Awdurdod Parc Cenedlaethol fis Tachwedd 2016.

Eglurodd y Rheolwr Mynediad a Hawliau Tramwy wrth y Pwyllgor bod y Parc Cenedlaethol â rhwydwaith o hawliau tramwy cyhoeddus a gynhelir gan yr Awdurdod yn ogystal â Llwybr Arfordir Sir Benfro. Y rhwydwaith hwn oedd y prif gyfrwng y gallai ymwelwyr archwilio a mwynhau arfordir a chefn gwlad y Parc Cenedlaethol oedd yn golygu gwariant blynyddol sylweddol o ran y gwaith o gynnal y rhwydwaith. O bryd l'w gilydd, felly, roedd angen cael barn y trigolion a'r ymwelwyr niferus sy'n cerdded ar hyd yr hawliau tramwy cyhoeddus hyn yn y Parc Cenedlaethol, oedd i bob pwrpas yn ddefnyddwyr y gwasanaeth. Felly prif bwrpas arolwg 2015-16 oedd pennu pwy oedd yn cerdded yn y Parc Cenedlaethol a pha mor aml; pam eu bod yn defnyddio hawliau tramwy cyhoeddus; beth oedd eu barn am gyflwr cyffredinol y rhwydwaith llwybrau, a beth y gellid ei wneud i wella eu profiad cerdded ac annog mwy o bobl i gael mynediad i'r arfordir a chefn gwlad.

Roedd yr arolwg wedi rhedeg yn barhaus o fis Awst 2015 i fis Gorffennaf 2016 drwy gynnal arolwg hunan-lenwi mewn deuddeg o leoliadau - saith o'r rhain ar Lwybr yr Arfordir a phump ar y rhwydwaith mewndirol o hawliau tramwy cyhoeddus. Cafodd gorsafedd yr arolwg eu dewis er mwyn sicrhau eu bod yn agos at y mesurydd cudd digidol sy'n cyfrif defnyddwyr y llwybr oedd yn galluogi sampl o ymatebwyr mewn perthynas â chyfanswm yr ymwelwyr i'w gofnodi. Dychwelwyd 2,959 o holiaduron wedi'u llenwi.

Roedd crynodeb o'r canlyniadau wedi'i nodi yn yr adroddiad gyda'r penawdau, nad oedd yn syndod, bod 72% o gerddwyr yn defnyddio'r llwybrau rhwng mis Mai a mis Medi gyda'r pellter cerdded yn 7.3 milltir ar gyfartaledd. O ran cyflwr y llwybrau, roedd lefelau uchel iawn o fodlonrwydd o ran wyneb y llwybrau, ymylon y llwybrau, arwyddion, gatiau a sticlau gyda 95% o'r ymatebwyr yn nodi bod y cyflwr yn ardderchog neu'n dda. Y cymhelliant i gerdded oedd i fwynhau'r dirwedd naturiol, ac



o ran yr hyn y gellid ei wneud i annog pobl i gerdded yn amlach, barn y rhan fwyaf o'r ymatebwyr oedd y dylid darparu mwy o arwyddion pellter a chyrchfan, yn ogystal â mwy o ganllawiau teithiau cerdded printiedig a mwy o gyhoeddusrwydd i'r cyfleoedd mynediad presennol. Felly, barn y swyddogion oedd bod yr adborth wedi bod yn dda ac yn glod i'r Wardeniaid oedd yn cynnal y llwybrau.

NODWYD.

[Ymddiheurodd y Cyngorydd L Jenkins a gadawodd y cyfarfod yr adeg hon.]

8. Adroddiad ar Berfformiad am Chwarter Olaf 2016/17

Dywedodd y Swyddog Cyllid mai'r rhagolwg diwygiedig o'r gwaged refeniw fis Mawrth 2017 oedd £203,000. Roedd hyn o ganlyniad i nifer o ffactorau, gan gynnwys arbedion yn y gyllideb staff oherwydd swyddi heb eu llenwi a staff yn gweithio'n rhan-amser, gostyngiadau yn y milltiroedd teithio ac arbedion mewn hysbysebu. Hefyd bu incwm ychwanegol o'r meysydd parcio, taliadau mynediad a digwyddiadau eraill. Roedd cronfeydd wrth gefn wedi'u creu i'w neilltuo ar gyfer y prosiectau 'Stitch in Time', Llwybrau, a Sgiliau ar Waith fel yr adroddwyd yn flaenorol.

Diolchodd yr Aelodau i'r swyddogion am lywio'r Awdurdod mor dda drwy flwyddyn anodd.

NODWYD.

9. Dirprwyo unrhyw faterion i'w hystyried gan y Grŵp Gwelliant Parhaus

Gofynnodd yr Aelodau a ellid rhoi ystyriaeth i edrych ar brydlesi a gwaredu eiddo, i egluro cyfrifoldebau'r Aelodau. Eglurodd y Prif Weithredwr nad oedd llawer o ddirprwyo i swyddogion o ran gwaredu eiddo, ac awgrymodd y dylid yn y lle cyntaf ofyn i'r Swyddog Ystadau roi cyflwyniad i'r Pwyllgor. Gellid cyflwyno argymhellion wedyn gerbron yr Awdurdod ar y modd y dylai materion rheoli ystadau gael eu dilyn ymhellach.

PENDERFYNWYD nad oedd unrhyw faterion oedd yn peri pryder yr oedd y Pwyllgor yn dymuno eu dirprwyo i'r Grŵp Gwelliant Parhaus i'w hystyried.

